

Y llythyr newyddion ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

Dehongli Cymru Interpret Wales

Hydref Autumn
2004 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

2



Yn y rhifyn hwn In this issue

Gweithio gyda dylunwyr
Working with designers

Estroniaid yn heidio i Gaerffili
Aliens invade a country park

Mae dehongli'n fyw yn Sain Ffagan!
Going live at St Fagans

DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES Rhifyn 2 Hydref 2004

Cyhoeddwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru

Golygydd: Marge Bryant
margeb@lineone.net
01298-25994

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: CIT Brace Harvatt

Mae Dehongli Cymru/Interpret Wales yn anelu at ennyn diddordeb y cyhoedd yn ein treftadaeth naturiol a diwylliannol drwy waith dehongli o'r radd flaenaf, a rhoi cymorth i ddehonglwyr drwy gynnig cyfleoedd i rwydweithio, cael hyfforddiant a rhannu arfer da. Mae'r prosiect yn cael ei redeg gan Grŵp Llywio sy'n cynrychioli'r asiantaethau canlynol:

Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru
Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru)
Bwrdd Croeso Cymru
Cadw – Henebion Hanesyddol Cymru
Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
(a gynrychiolwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Cyngor Sir Ddinbych
Dŵr Cymru / Welsh Water
Parciau Cenedlaethol Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru

Cynnwys

Pam cadw ci a chyfarth eich hunan?	4
Jon Dixon	
Ym Mhen-y-fan gall neb eich clywed yn sgrechian...	8
Dave Penberthy	
Mae dehongli'n fyw yn Sain Ffagan	10
Nia Williams	
Torri cwys newydd yn y Bannau	14
Suzanna Meekins	
Y dyddiad cau a gollwyd gan y mwyafrif ohonom	16
Marge Bryant	

Clawr:

Ail-greu Oes yr Haearn yn
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan
Llun: AOCC
Stori: tudalen 10

Mae'n bryd i ni wneud ein campau!

Croeso i ail rifyn Dehongli Cymru/ Interpret Wales. Ers i'r cylchgrawn ymddangos am y tro cyntaf fis Mawrth diwethaf, rydym wedi derbyn ymateb cadarnhaol gan ein darllenwyr. Dywedodd nifer ei fod yn bodloni angen gwirioneddol ac yn cadw gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector bythol gynyddol hwn mewn cyswllt â'r hyn sy'n digwydd ar hyd a lled y wlad.

Cawsom ein rhybuddio hefyd am yr angen i gadw min ar ein cyneddau beirniadu! "Er mwyn bod o fudd, dylai cylchlythyr fel hwn gynnig her yn ogystal â gwybodaeth," nododd yr ymgynghorydd a'r academydd o Gaerdydd, R. Elwyn Owen, "ac felly rwy'n gobeithio y byddwch yn parhau i edrych ar y byd dehongli drwy lygaid beirniadol." Fe wnawn ein gorau, yn sicr.

Awgrymodd rhai darllenwyr y dylem neilltuo mwy o ofod i eitemau byr o newyddion yn sôn am daflenni newydd, panelau, llwybrau, digwyddiadau, canolfannau ymwelwyr, prosiectau celfyddydol ac ati – yr ystod cyfan o fentrau bychain sy'n rhoi blas o bwy sy'n gwneud beth yng Nghymru. Mae hwn yn syniad penigamp, ond er mwyn iddo lwyddo, rydym yn gofyn i chi, y darllenwyr, ddweud wrthym am y prosiectau sydd ar y gweill, yn cael eu comisiynu neu'n cael eu llwyfannu gennych. Felly, anfonwch fanylion cryno ataf, os gwelwch yn dda, a llun hefyd, yn ddelfrydol, ac yna gallwn gynnwys eitem o newyddion am eich prosiect. Mae croeso i chi anfon erthyglau hwy hefyd, wrth gwrs.

Mae tynnu sylw at arfer da yn un o'n prif amcanion, ac o gloriannu'r prosiectau sy'n ymddangos rhwng cloriau'r rhifyn hwn a'r un blaenorol, mae digonedd o arfer da ar waith yng Nghymru. Roeddwn i'n synnu clywed felly nad oedd yna unrhyw ymgais o Gymru wedi ei chynnwys yn rownd ddiweddaraf Gwobrau Dehongli Prydain ac

Iwerddon. Wrth wyllo seremoni cyflwyno'r Gwobrau yng nghanolfan arddangos Earl's Court yn Llundain fis Mai diwethaf, roeddwn i'n gallu meddwl am rai prosiectau rhagorol a allai'n wir fod wedi bod ymhlith yr enillwyr – ond chawson nhw mo'u cynnig i'r gystadleuaeth.

Mae'r Gwobrau hyn yn rhoi cydnabyddiaeth i'r enghreifftiau gorau o ddehongli sydd i'w gweld ar draws y DU ac Iwerddon. Gweinyddir y cynllun, sydd bellach yn 20 mlwydd oed, gan y Gymdeithas Dehongli Treftadaeth (admin@heritage-interpretation.org.uk). Caiff rownd 2005 ei lansio fis Ionawr nesaf, a rhaid cyflwyno'r cynigion erbyn dechrau Mai. Mae ennill gwobr neu glod yn hwb enfawr i safle neu brosiect, a bydd pob ymgeisydd yn derbyn asesiad ysgrifenedig defnyddiol gan feirniaid profiadol. Gobeithio'n wir y bydd dehonglwyr yng Nghymru yn cipio'r llawryfon y flwyddyn nesaf!

Marge Bryant

Golygydd cylchgrawn
Dehongli Cymru/Interpret Wales

Gwnewch gais nawr am le yng ngweithdy Sam Ham!

Bydd Sam Ham, un o brif arbenigwyr y byd ar ddehongli, yn arwain ein gweithdy cyntaf ar Ddehongli Cymru rhwng 11-12 Ionawr 2005 yn yr Amgueddfa a'r Oriol Genedlaethol yng Nghaerdydd. Mae Sam yn hyfforddwr ysbrydoledig sy'n cynnig her a bydd y gweithdy yn berthnasol i holl sectorau'r byd dehongli. Nifer cyfyngedig o leoedd fydd ar gael, felly, os gwelwch yn dda, ymatebwch yn fuan drwy ddychwelyd y ffurflen sydd wedi ei chynnwys yn y cylchgrawn hwn.



It's time to strut our stuff!

Welcome to the second issue of Interpret Wales/Dehongli Cymru. Since the magazine made its debut last March, we've had a very positive response from readers. Many have said it fulfils a real need, keeping professionals in this ever-growing sector in touch with what's going on around the country.

We've also been warned of the need to keep our critical faculties sharp! "To be of value, a newsletter like this should challenge as well as inform," writes Cardiff-based consultant and academic R. Elwyn Owen, "and so I hope you will continue to view the world of interpretation with a critical eye." We will certainly do our best.

Some readers have suggested that we devote more space to short news items about new leaflets, panels, trails, events, visitor centres, arts projects and so on – the whole range of small-scale initiatives that give a flavour of who's doing what in Wales. This is a great idea but to make it work we need you, the readers, to tell us about the projects you're planning, commissioning or carrying out. So please send me brief details and, ideally, a picture, and we can include a news item about your project. Of course, longer articles are welcome too.

Showcasing good practice is one of our main aims, and to judge from the projects featured in this issue and the last one, there's plenty of good practice happening in Wales. I was therefore amazed to learn that there

was not a single entry from Wales in the latest round of Interpret Britain & Ireland Awards. Watching the Awards presentation at the Earl's Court exhibition centre in London last May, I could think of some wonderful projects that might well have been among the winners – but had not entered.

These Awards recognise the very best examples of interpretation throughout the UK and Ireland. The scheme, now in its 20th year, is run by the Association of Heritage Interpretation (admin@heritage-interpretation.org.uk). The 2005 round will be launched next January, with entries due in by the beginning of May. Winning an award or commendation is a great boost for a site or project, and all entrants get a helpful written assessment from experienced judges. Let's hope interpreters in Wales will be walking off with the laurels next year!

Margi Bryant

*Editor, Interpret Wales/
Dehongli Cymru magazine*

Book now for Sam Ham workshop!

Sam Ham, one of the world's top authorities on interpretation, will lead our first Interpret Wales workshop on 11-12 January 2005, at the National Museum and Gallery in Cardiff. Sam is a challenging and inspiring trainer and the workshop will be relevant to all sectors of interpretation. Places are limited, so please book early by returning the form enclosed with this magazine.

INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU Issue 2 Autumn 2004

Published by the Countryside Council for Wales
on behalf of the Interpret Wales Steering Group

Editor: Margi Bryant
margib@lineone.net
01298-25994

Design: Olwen Fowler

Printed by: CIT Brace Harvatt

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public about our natural and cultural heritage through interpretation of the highest quality, and to support interpreters by networking, training and sharing good practice. The project is run by a Steering Group representing the following agencies:

Cadw - Welsh Historic Monuments
Countryside Council for Wales
Denbighshire County Council
Dwr Cymru / Welsh Water
Environment Agency Wales
Forestry Commission Wales
National Museum & Galleries of Wales
National Parks in Wales
National Trust Wales
Wales Tourist Board
Welsh Local Government Association
(represented by Caerphilly
County Borough Council)

Contents

Why fetch your own stick?	6
Jon Dixon	
In Pen-y-fan, no-one can hear you scream	9
Dave Penberthy	
Going live at St Fagans	12
Nia Williams	
Blazing a trail in the Beacons	15
Suzanna Meekins	
The deadline most of us missed	16
Margi Bryant	

Cover:
Recreating the Iron Age at the
Museum of Welsh Life, St Fagans
Photo: NIMGW
Story: page 12

Pam cadw ci a chyfarth eich hunan?

Mae dylunio yn elfen hanfodol o ddehongli, ym mhob achos bron, ond o'r braidd y bydd yn cael ei phwysleisio'n ddigonol fel disgyblaeth ddeongliadol. Y dylunydd **Jon Dixon** sy'n cynnig ychydig gyngor ar y ffordd orau i ymdrin â chyfathrebu gweledol.

O fewn munud neu ddwy wedi i rifyn cyntaf y cylchgrawn hwn lanio ar fy nesg, roeddwn i'n cynnig cyfrannu erthygl ar ddehongli deongliadol. Ond pan eisteddais i lawr er mwyn mynd ati i'w hysgrifennu, dyma fi'n sylweddoli 'mod i'n gaeth i'r un rhigol rwyf i ac eraill wedi bod yn ei dilyn yn y gorffennol – cynhyrchu set o ddiadau sain am hierarchaethau testun a'r ffontiau lleiaf posibl. Heb os, mae gwybodaeth o'r fath yn ddefnyddiol wrth bennu lleiafswm safonau, ond mae 'na berygl y gall hyn i gyd fod yn hunandrechol.

I gychwyn, bydd canllawiau o'r fath yn aml yn cael eu gweld fel rheolau caeth. Mae nifer o'm cyfeillion sydd heb fod yn gynllunwyr yn eu gwybod ar eu cof. Canlyniad hyn oll yw dull cyflwyno sy'n anhyblyg o fformiwlaig, rhywbeth yn wir na ddylai dehongli fyth fod. Dylid cynllunio prosiectau sy'n seiliedig ar amcanion deongliadol, negeseuon allweddol, cynulleidfaoedd targed, lleoliad ac amryfal ffactorau eraill. Bydd ffurf wedyn yn dilyn swyddogaeth, yn hytrach na cheisio gwthio negeseuon unigryw i mewn i fformat safonol anaddas.

Mae dibynnu ar reolau hefyd yn tanseilio gwerth dylunio graffig deongliadol, proffesiynol. Yr argraff a roddir yw y gall unrhyw un sy'n meddu ar set o ganllawiau, ynghyd â'r meddalwedd hwnnw gan Microsoft sy'n dwyn y teitl optimistig 'Publisher', gynllunio panel neu daflen froliant. Mae hyn fel tybio eich bod yn saer dodrefn yn

unig oherwydd bod gyda chi lond tudalen o gynghorion yn ymwneud â gwaith coed a haclif gwas bach.

Gall canllawiau a meddalwedd roi i bobl rywfaint o flas ar ddylunio sylfaenol. Ond ni ddylem dderbyn safon "sylfaenol" ym maes dehongli. Os ydym yn meddwl fod stori yn werth ei hadrodd a bod neges yn werth ei chyfleu, yna dylem ni fod yn anelu at gynhyrchu gwaith o'r safon a'r ansawdd uchaf posibl. Ac mae hynny'n golygu galw ar y gweithwyr proffesiynol!

Fel dehongli ei hun, proses gyfathrebu yw dylunio graffig. Bydd dylunwyr graffig yn arbenigo ar gyfathrebu negeseuon drwy gyfryngau gweledol. Mae'n broses hynod gelfydd ac yn cynnwys cyfuniad o theori cyfathrebu, dawn greadigol a gwybodaeth ymarferol.

Er mwyn i ddylunio graffig lwyddo, rhaid wrth ddealltwriaeth gadarn o'r neges a'r cynulleidfa. Am y rheswm hwn, bydd y rhan fwyaf o gynllunwyr yn eu cael eu hunain yn arbenigo mewn meysydd gwaith penodol. Dylai pob dylunydd fod yn medru cymryd ychydig destun a delweddau a gwneud iddyn nhw edrych yn ddeniadol. Eto i gyd, os ydyn nhw'n fwy cyfarwydd â chynllunio llenyddiaeth gorfforaethol neu hysbysebion, yna dealltwriaeth gyfyngedig yn unig o brosiect dehongli arbennig fydd ganddyn nhw. Gall yr hyn a gynhyrchir fod yn atyniadol ond pur annhebyg y bydd yn llwyddo fel darn o gyfathrebu deongliadol.

Dyma pam y mae'n werth chwilio am ddylunydd graffig sy'n arbenigo ar ddehongli. Ymhlith ei sgiliau arbenigol bydd:

- Gwybodaeth am y prosesau dehongli. Rhaid i ddehongli llwyddiannus gychwyn gyda chynllunio gofalus a set o amcanion clir. Bydd dylunwyr dehongli yn deall y prosesau a'r amcanion hyn ac yn brofiadol yn y gwaith o'u defnyddio.
- Gwybodaeth am y deunydd testunol sydd i'w dehongli. Bydd y mwyafrif o ddylunwyr dehongli wedi llyncu cryn dipyn o wybodaeth am dreftadaeth a'r amgylchfyd. Hyd yn oed os nad ydyn nhw'n arbenigwyr ar destun eich prosiect, bydd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth gefndir er mwyn medru ei ddeall ac wedi cael profiad o weithio gyda thestunau a themâu tebyg.
- Profiad o ddylunio ar gyfer cynulleidfaoedd targed priodol. Mae arddull graffig sy'n gweithio'n dda wrth werthu gwasanaethau ariannol i gwsmeriaid busnes, er enghraifft, yn debygol o fod yn gwbl anaddas wrth geisio dod â chymuned wledig Gymreig yn rhan o dirwedd a bywyd gwyllt eu mynydd lleol.
- Profiad o weithio gyda chyfryngau dehongli. Bydd gwahanol gyfryngau yn aml yn galw am ddulliau cyflwyno tra gwahanol. Gall yr hyn sy'n edrych yn dda ar dudalen A4 edrych yn ofnadwy ar banel arddangos. Wrth gynllunio panelau dehongli, rhaid wrth ddull arbenigol o fynd i'r afael â'r gwaith cyflwyno. Yn sgil bod yn gyfarwydd â'r broses gynhyrchu a defnyddio cyfryngau o'r fath, daw gwybodaeth hanfodol am eu cryfderau, gwendidau a'u posibiliadau creadigol.

Felly, sut fyddwch chi'n mynd ati i weithio gyda dylunydd graffig deongliadol? Mae'n demtasiwn yma i lunio rhestr arall o ganllawiau: diffinio paramedr y prosiect, pennu ffiniau amser realistig, cyllido priodol, enwebu person unigol i fod yn gyswllt â'r cleient ac ati. Mae'r holl bethau hyn yn bwysig, ond carwn dynnu sylw at ddau bwynt mwy sylfaenol.

Pwynt cyntaf. Dylech gynnwys y dylunydd yn y trafodaethau o'r cychwyn. Un o'r sefyllfaoedd mwyaf trist o ddigon yw dehongli "tu chwith". Dyma pryd y bydd rhywun yn dechrau drwy benderfynu ar ryw gyfrwng deongliadol arbennig (fel taflen, panel neu arddangosfa) ac yna'n ceisio gosod yr holl ystyriaethau eraill o'i gwmpas. Fel arfer, bydd arian wedi ei glustnodi ar gyfer y daflen neu'r panel a'r dasg wedi ei chynnwys

yn rhan o raglen waith rhyw unigolyn, a hynny ymhell cyn y bydd neb wedi meddwl am amcanion, cynulleidfau neu negeseuon y prosiect. Hunllef arall yw dehongli "llinell-gynhyrchu". Bryd hyn bydd prosiect yn mynd trwy gyfres o wahanol brosesau (dewis cyfrwng, ysgrifennu'r testun, cyfieithu'r testun, chwilio am ddelweddau ac ati) sy'n cael eu cyflawni gan wahanol bobl, heb fod fawr ddim gwaith cydlynu wedi digwydd.

Yn y naill sefyllfa a'r llall, erbyn i'r prosiect gyrraedd y dylunydd mae llawer o'r penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gwaith dylunio eisoes wedi eu gwneud. Yn aml iawn, byddaf yn fy nghlywed fy hun yn dweud "Daliwch eich gafael, byddai'r prosiect hwn yn gweithio'n llawer gwell pe bai ..." ac wedyn yn cael clywed ei bod yn rhy hwyr newid unrhyw beth o gwbl. Mae hyn fel prynu'r holl ddefnyddiau adeiladau sydd angen arnoch er mwyn codi tŷ newydd – ac yna'n mynd ati i ofyn i bensaer gynllunio'r adeilad hwnnw.

Diffinio amcanion, y prif negeseuon a'r gynulleidfau ddylai fod y cam cyntaf yn hanes unrhyw brosiect dehongli. Y cam nesaf yw dod â'r dylunydd, ynghyd â'r awdur ac arbenigwyr eraill yn rhan o'r stori. Mae hyn yn golygu mai pobl sydd yn meddu ar y sgiliau cymwys fydd yn cynllunio sut y bydd y prosiect yn cael ei weithredu,

a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r holl elfennau a'r gwahanol faterion. Os caiff dylunwyr a phobl greadigol eraill ymwneud â'r gwaith o'i gychwyn, mae modd iddyn nhw borthi ar greadigrwydd a phrofiad y naill a'r llall gan fynd ati i ddatblygu syniadau newydd, arloesol ac effeithiol.

Yr ail bwynt. Rhowch gyfle i'r dylunydd fynd ati i ddylunio! Bydd llawer o bobl yn rhoi argymhellion rhagysgrifiadol iawn pan fyddan nhw'n cyfarwyddo dylunwyr, gan roi gorchmynion gofalus ynglŷn â phob manylyn mân. Gall hyn fod yn ganlyniad naturiol defnyddio dylunwyr sydd heb brofiad arbenigol ym maes dehongli ac sydd angen cryn dipyn o arweiniad. Mae hyn, serch hynny, yn golygu fod y sawl nad yw'n ddylunydd yn gwneud nifer o benderfyniadau dylunio pwysig. Os ydych chi'n mynd i ddefnyddio dylunydd, fe/hi ddylai wneud yr holl waith sy'n ymwneud â dylunio. Does dim diben cadw ci a chyfarth eich hunan!

Cyflwynwch y dylunwyr yn gynnar i'r prosiect a rhowch iddyn nhw'r rhyddid i fod yn greadigol. Yn hytrach na nodi maint y testun neu safle'r delweddau, dylai cyfarwyddyd dylunio ganolbwyntio ar esbonio'r amcanion deongliadol, y prif negeseuon a'r cynulleidfaoedd. Gall dylunwyr wedyn ddefnyddio eu sgiliau, eu creadigrwydd a'u



Mae mwy i waith dylunio graffig deongliadol na dim ond gwneud i bethau edrych yn brydferth. Dyma un o blith set o banelau sy'n ymwneud â safleoedd y Llychlynwyr ar Ynysoedd Orch (Orkney) ac sy'n cael eu crybwyll yn yr Orkneyinga Saga. Dechreuais drwy ddarllen y Chwedl, sy'n 200 tudalen o hyd, cyn mynd ar daith mewn awyren i'r ynysoedd er mwyn dechrau ymdeimlo â'r testun a'r lleoliadau. Mae'r panelau a gynhyrchwyd yn rhy eiriog yn ôl y mwyafrif o ganllawiau. Ond gan eu bod yn dehongli dogfen ysgrifenedig ac wedi eu gosod mewn lleoedd sydd ond yn denu pobl sy'n ymddiddori yn y pwnc, mae cyfanswm y testun yn dderbyniol.

There's more to interpretive graphic design than just making things look pretty. This is one of a set of panels for Viking sites in Orkney mentioned in the Orkneyinga Saga. I started by reading the 200-page Saga and flew up to the islands so I could get a feel for the subject and locations. The resulting panels are too wordy according to most guidelines. But as they interpret a written document, and are in places only visited by people interested in the subject, the amount of text is fine.

profiad i gynhyrchu gwaith dehongli sydd nid yn unig yn ddeniadol ond sy'n cyfathrebu'n effeithiol.

Mae Jon Dixon yn Ddylunydd Graffig gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ogystal â bod yn ymgynghorydd dehongli a dylunio hunangyflogedig. Cysylltwch: jon.dixon@breconbeacons.org, tel: 01874-620438 neu jon@jon-dixon.co.uk

Why fetch your own stick?

Design is a crucial element of much interpretation, but it's rarely given enough emphasis as an interpretive discipline. Designer **Jon Dixon** offers some advice on the best approach to visual communication.

Within minutes of the first issue of this magazine landing on my desk, I was offering to contribute an article on interpretive design. But when I sat down to write it, I found myself stuck in the same rut that I and others have followed in the past – producing a set of sound-bites about text hierarchies and minimum font sizes. Certainly, this sort of information is useful in setting minimum standards, but there's a danger that it can be self-defeating.

For a start, such guidelines are often seen as strict rules. Many of my non-designer colleagues know them off by heart. This results in an approach that is rigidly formulaic, which is something interpretation should never be. Projects should be designed around interpretive objectives, key messages, target audiences, location and various other factors. Form then follows function, rather than trying to shoehorn unique messages into an inappropriate standard format.

Reliance on rules also undermines the value of professional interpretive graphic design. The impression is that anyone, armed with a set of guidelines and Microsoft's optimistically titled Publisher software, can design a panel or leaflet. This is a bit like fancying yourself as a

cabinetmaker just because you've got a page of woodworking tips and a junior hacksaw.

Guidelines and software can give people an insight into basic design. But "basic" is not a standard we should accept for interpretation. If we believe that a story is worth telling and a message worth communicating then we should be aiming for the highest standards of quality in the work we produce. And that means bringing in the professionals!

Like interpretation itself, graphic design is a communication process. Graphic designers are specialists in communicating messages through visual media. It's a highly skilled process, involving a mix of communication theory, creative flair and practical knowledge.

Successful graphic design requires a sound understanding of the message and the audience. For this reason most designers find themselves specialising in particular areas of work. All designers should be able to take some text and images and make them look good. However, if they're more used to designing corporate literature or adverts, their understanding of an interpretation project will be limited. The result may be pretty but is unlikely to be successful as

a piece of interpretive communication.

This is why it's worth seeking out a specialist interpretive graphic designer. Their specialist skills will include:

- Knowledge of interpretive processes. Successful interpretation must start with careful planning and a clear set of objectives. Interpretive designers will understand these processes and objectives and will be experienced at working with them.
- Knowledge of interpretive subject-matter. Most interpretive designers will have absorbed a great deal of information about heritage and the environment. Even if they're not experts in the subject of your project they'll have enough background knowledge to be able to understand it and will have experience of working with similar subjects and themes.
- Experience of designing for appropriate target audiences. A graphic style which works when selling financial services to business customers, for example, is likely to be completely inappropriate for involving a Welsh rural community in the landscape and wildlife of their local mountain.
- Experience of working with interpretive media. Different media often require very different approaches. What looks good on an A4 page may look terrible on an exhibition panel. Specialist media, such as interpretive panels, require a specialist approach to their design. Familiarity with the manufacture and use of such media also brings essential knowledge of their strengths, weaknesses and creative possibilities.

So how do you go about working with an interpretive graphic designer? The temptation here is to produce another list of guidelines: defining the project's parameters, setting realistic deadlines, proper budgeting, nominating a single person as the client contact and so on. All these things are important, but I'd prefer to highlight two more fundamental points.

Point one. Get the designer involved early. One of the most depressing scenarios is “back-to-front” interpretation. This is where someone starts by deciding on a particular interpretive medium (such as a leaflet, panel or exhibition) and then tries to fit all the other considerations around it. Usually the leaflet or panel has been budgeted for and allocated to someone’s work programme long before anybody thinks about the project’s objectives, audiences or messages. Another horror is “production-line” interpretation. This is where a project is passed through a series of different processes (choosing media, writing text, translating text, sourcing images etc) carried out by different people with little co-ordination.

In both these scenarios, by the time the project reaches the designer a lot of design-related decisions have already been made. I often find myself saying “Hold on, this project would work much better if...” only to be told that it’s too late to change anything. It’s a bit like buying all the building materials for your new house – and then asking an architect to design it!


The first stage of any interpretive project should be to identify the objectives, key messages and audiences. The next step is to bring on board the designer, along with the writer and other specialists. This means that people with the appropriate skills plan how the project will be implemented, with all the different elements and issues taken on board. If designers and other creative people are involved early on, they can feed off each other’s creativity and experience and develop innovative and effective new ideas.

Point two. Allow the designer to design! Many people are highly prescriptive when they brief designers, giving careful instructions for every tiny detail. This may be an understandable result of using designers without specialist interpretation experience, who may need a lot of guidance. However, it means that non-designers are making many important design decisions. If you’re

going to use a designer, they should do all the design-related work. There’s no point in having a dog and fetching your own stick!

Get designers involved early in the project and give them the freedom to be creative. Rather than specifying text sizes or image positions, a design brief should concentrate on explaining the interpretive objectives, key messages and audiences. Designers can then use their skills, creativity and experience to produce interpretation that is not just attractive but communicates effectively.

Jon Dixon is Graphic Designer for Brecon Beacons National Park Authority and a freelance interpretation and design consultant. Contact: jon.dixon@breconbeacons.org, tel 01874-620438 or jon@jon-dixon.co.uk



Pan laniodd y prosiect hwn ar fy nesg roedd yn cynnwys map GIS hyll a thros 1,000 o eiriau am ddaearog, a gofynnwyd i fi lunio ambell ddiagram ddaearogol. Yn lle hynny, fe ddechreuais eto o'r dechrau. Mae'r panel erbyn hyn yn mynd i'r afael â'r cwestiynau y mae pobl yn debygol o'u gofyn: Ble'r ydym ni? Pam fod siâp mor rhyfedd ar y mynyddoedd? Oes modd i ni ddringo'r mynyddoedd? Mae'r panel yn cynnwys ffotograffau lliw o'r mynyddoedd, map awyrlun (sy'n haws i'w ddefnyddio gan bobl na map cyffredin) a llun cartŵn o gerddwr sy'n cario offer priodol.

When this project landed on my desk it consisted of an ugly GIS map and over 1,000 words about geology, and I was asked to draw some geological diagrams. Instead, I started again from scratch. The panel now addresses the questions people are likely to ask: Where are we? Why are the mountains such a funny shape? Can we climb the mountains? The panel is illustrated with colour photos of the mountains, an aerial-view map (which most people find easier to use than a normal map) and a cartoon of a properly equipped walker

Wrth ddrafftio cynllun deongliadol Parc Gwledig Llyn Pen-y-fan rai blynyddoedd yn ôl, roedden ni'n gwybod fod angen mynd i'r afael â phroblemau rheolaeth arferol y safle, megis gwrthdaro grwpiau defnyddwyr, sbwriel, cŵn yn baeddu ac yn y blaen. Cwynwyd hefyd fod "dim byd ar gael ar gyfer plant!".

Mae Llyn Pen-y-fan, ger Oakdale, Caerffili, yn henebyn cofrestredig. Dyma'r enghraifft fwyaf cadwrus yng Nghymru o gronfa ddŵr sy'n bwydo camlas. Cafodd ei hadeiladu tua 1795 i wasanaethu braich Crymlyn o Gamlas Aberhonddu a Sir Fynwy.

Aethom ati i bennu ein hamcanion deongliadol er mwyn rhoi gwybod i bobl pwy sy'n rheoli'r safle, pam a thros bwy. Roedden ni am annog ymwelwyr i drin y lle gydag ychydig mwy o ofal a pharch. Ar thema ddeongliadol? Wel, roedd honno mor ddiflas fel fy mod i, hyd yn oed, wedi ei hanghofio erbyn hyn!

Ond un diwrnod, daliodd aelod o'r grŵp pysgota aliwn oedd yn tresmasu yn y llyn - cimwch coch. Yn fuan daeth hwn yn fsgot newydd y swyddfa, ac fe'i galwyd yn "Snippy". Cafodd cimychiaid coch eu cyflwyno i'r DU o Ogledd America yn yr 1970au er mwyn cyflenwi tai bwyta a gwerthwyr pysgod. Ar ôl dianc neu gael eu gollwng yn y gwyllt, maen nhw bellach yn effeithio ar gimychiaid llai sydd â'u cynefin mewn dŵr croyw, drwy ennill y frwydr am fwyd a lledu afiechyd ffyngaidd. Maen nhw hefyd yn cael effaith ar boblogaethau pysgod trwy fwyta wyau a physgod bach. Felly cododd Snippy nifer o faterion difrifol.

Roedden ni'n gallu canfod mwy o "aliwns" ar y safle hefyd - carreg fawr grwydrol wedi ei gadael gan rewlif wrth i hwnnw encilio, gwiwerod llwyd, ieir bach yr haf benywaidd, paentiedig yn ogystal â rhyw fewnforion estron mwy annymunol fel baw cŵn a sbwriel. Yn sydyn, roedd gyda ni wyth o destunau i'w dehongli a dyna sut y daeth y syniad am "Lwybr Aliwn" i fod.

Ar yr un pryd, roedd ein Gwarchodwr Addysg wedi rhoi cynnig ar ennill gwobr fawr yng nghystadlwethau 'Readers Digest'

Ym Mhen-y-fan, all neb eich clywed chi'n sgrechian...

Pan gafodd y cynllun deongliadol ar gyfer Parc Gwledig Llyn Pen-y-fan ei ddrafftio'n gyntaf, doedd dim sôn am aliwns ar y radar. Ond maen nhw yno nawr, ac maen nhw'n llwyddiant ysgubol. Mae **Dave Penberthy** yn esbonio sut y bu i'r aliwns dresmasu.

a hynny drwy edrych trwy ddarn o haenen blastig goch er mwyn canfod rhif cuddiedig. Rhoddodd hyn fod i syniad gwyllt a chyffrous – "teclyn sylu ar aliwn". Aethom ati i ysgrifennu clwbiau am ein hymwelwyr estron i'w harddangos ar baneli o gwmpas y Parc Gwledig. Pan fydd pobl yn defnyddio'r syllyddion – sy'n ffurfio rhan o daflen froliant y llwybr – mae enw'r aliwn yn cael ei ddatgelu.

Roedden ni'n awyddus i'r paneli a'r plinthiau ategol edrych yn rhan o oes y gofod. Cynlluniwyd y paneli i edrych fel consolau cyfrifiadurol sy'n cynnwys data gwyddonol am y blaned sy'n gartref i'r aliwn, dyddiad glanio'r ymwelydd estron ac yn y blaen. Fe gysyllton ni â gof lleol a gofyn am greu "8 blwch sy'n edrych fel pe baen nhw wedi disgyn oddi ar gefn llong ofod". Drwy lwc, roedd y gof yn 'Trekkie' brwd a mwynhaodd y sialens. Roedd yn rhaid i ni osod y blychau heb gloddio tyllau, gan fod y safle yn henebyn cofrestredig.

Gyda chymorth arian Adfywio drwy'r cynllun "Llefydd i Bobl/Places for People", cafodd y llwybr ei osod yn gynharach yn 2004 ac mae'n profi'n boblogaidd iawn gyda theuluoedd. Rydym yn ymwybodol o hyn trwy rywfaint o fonitro'n slei bach. Erbyn hyn, mae yna nawfed aliwn i'r ymwelwyr ei ddarganfod. Rhaid iddyn nhw anfon eu hatebion atom a byddan nhw'n

derbyn bathodyn am ddim. Ac mae llawer o fathodynau wedi eu hawlio mor belled.

Ar hyn o bryd rydym yn datblygu llyfr comic i'w anfon allan gyda'r bathodynau er mwyn atgyfnerthu ein neges - er enghraifft, gwybodaeth am lanhau casynau tanwydd gwag (sef papurau melysion a bagiau creision, fel rydym ni'n eu hadnabod) sy'n cael eu gadael ar ôl gan ddynolion ar ymweliad.....

Mae Dave Penberthy yn
Uwch Swyddog Cynllunio gyda
Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
Cysylltwch â: penbed@caerphilly.gov.uk,
ffôn: 01495-235219



Dyluniwyd y plinthiau i edrych fel "rhywbeth sydd newydd ddisgyn oddi ar gefn llong ofod". Plinths were designed to look like "something that's just fallen off the back of a spaceship"

In Pen-y-fan, no-one can hear you scream...

When the interpretive plan for Pen-y-fan Pond Country Park was first drafted, aliens hadn't appeared on the radar. But they're there now, and are a flyaway success. **Dave Penberthy** explains how the aliens invaded.

Drafting the interpretive plan for Pen-y-fan Pond Country Park a few years ago, we knew we had to address the usual site management issues – user group conflicts, litter, dog mess and so on. And there was also the cry of “There’s nothing for kids to do!”

Pen-y-fan Pond is a scheduled ancient monument, near Oakdale, Caerphilly. It's the best-preserved example in Wales of a canal feeder reservoir, built around 1795 to serve the Crumlin arm of the Monmouthshire and Brecon Canal.

We set our interpretive objectives around letting people know who manages the site, why and for whom. We wanted to encourage visitors to treat it with a little more care and respect. The interpretive theme? Well that was so dull even I've forgotten it now!

But one day, an angling club member caught an alien invader in the pond – a signal crayfish. It quickly became the office mascot, dubbed “Snippy”. Signal crayfish were introduced to the UK in the 1970s from North America, to supply restaurants and fishmongers. Escaped or released into the wild, they are now affecting the smaller native freshwater crayfish by out-competing them for food and spreading a fungal disease. They can also affect fish populations by eating eggs and fry. So Snippy raised a lot of serious issues.

We could identify several more “aliens” on site – an erratic boulder left by a retreating glacier, grey squirrels, painted lady butterflies, as well as more unpleasant alien imports like dog mess and litter. Suddenly we had eight topics to interpret and the idea of an “alien trail” was born.

At the same time, our Education Ranger had just entered a Readers Digest prize draw which involved looking through a piece of red plastic film to reveal a hidden number. This sparked off a wild and exciting idea – the “alien viewer”. We wrote clues about our aliens, to appear on panels sited around the Country Park. When people use the viewers – which form part of the trail guide leaflet – the alien's name is revealed.

We wanted the panels and supporting plinths to have a suitably space-age feel. The panels are designed to look like computer consoles, with scientific data about the alien's home planet, touch-down date and so on. For the plinths, we approached a local blacksmith with a brief to make “eight boxes that look like they've fallen off the back of a spaceship”. Luckily he turned out to be a closet Trekkie and relished the challenge. We had to install the boxes without digging holes,



Jon Hole, y Prif Warchodwr, yn dangos i ymwelydd o'r gofod sut i ddefnyddio'r syllydd pan gaiff y llwybr aliwn ei lansio.
Chief Ranger Jon Hole shows a visitor from space how to use the viewer when the alien trail is launched

as the site is a scheduled ancient monument.

With the help of Adfywio money through the “Places for People” scheme, the trail was installed early in 2004 and is proving enormously popular with families. We know this through a sneaky bit of monitoring. There's a ninth mystery alien that visitors have to find. They send in the answer and win a free badge. And lots of badges have been claimed so far.

We're currently developing a comic to send out with the badges, to reinforce our messages – for example about clearing up the empty fuel supply casings (otherwise known as sweet wrappers and crisp bags) ejected by visiting humanoids...

*Dave Penberthy is Senior Planning Officer with Caerphilly County Borough Council.
Contact: penbed@caerphilly.gov.uk,
tel 01495-235219*

Mae dehongli'n fyw yn Sain Ffagan

Nid peth newydd yw'r ffaith fod pobl yn hoffi clywed am fywydau pobl eraill – boed hynny drwy awydd i uniaethu neu drwy chwilfrydedd yn unig. Mae **Nia Williams** yn disgrifio sut mae Amgueddfa Werin Cymru yn defnyddio natur dyn i greu dulliau dehongli effeithiol.



Leah Jones yn ysbrydoli ymwelwyr i edrych y tu hwnt i'r rwbwl wrth i'r gwaith o ailadeiladu Eglwys Sant Teilo fynd yn ei flaen
Leah Jones inspires visitors to see beyond the rubble as St Teilo's Church is rebuilt

Mae ymwelwyr yn hoffi siarad a gwrando ar bobl ac maen nhw'n cael mwy o'r profiad personol hwnnw na thrwy unrhyw fath arall o ddehongli. Dyma neges glir arolwg o ymwelwyr Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan ger Caerdydd.

Mae dehongliad byw yn fwyfwy cyfarwydd i ni heddiw. Gall fod yn ddehongliad "person cyntaf", lle mae dehonglydd mewn gwisg yn chwarae rhan cymeriad fel pe bai wedi

teithio drwy amser i'r presennol (neu lle mae'r gynulleidfa wedi teithio nôl i'r gorffennol). Gall fod yn ddehongliad "trydydd person", lle mae'r dehonglydd yn gwisgo i fyny ac yn siarad yn awdurdodol am fywyd a chyfnod cymeriad, ond yn dal i fod o'r 21ain ganrif. Neu gall y dehonglydd gyflwyno'r peth fel ef neu hi ei hunan, gan siarad am y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

Dehongli o'r math hwn yw prif waith pedwar aelod o staff yr Amgueddfa Werin erbyn hyn. Eu gwaith yw adrodd straeon

a chyflwyno themâu. Maen nhw'n datgelu'r haenau o ystyron sydd y tu ôl i'r adeiladau a'r arteffactau drwy wneud i bobl feddwl a thrafod. Mae eu gwaith yn annog eu cynulleidfa i chwarae rhan ymarferol yn y broses o ddysgu.

Adeiladau gwreiddiol sydd wedi cael eu symud a'u hailgodi ar y safle yw'r rhan fwyaf o arddangosion yr Amgueddfa. Ond dehongliad archeolegwyr o'r gorffennol yw'r tai crwn yn ein Pentre Celtaidd. Dyma lle cafodd ein dehonglwyr llawn-amser cyntaf eu cyflogi nôl ym 1991. Cafwyd ar y cychwyn dehongliad person cyntaf, gyda dau aelod o staff yn gwisgo fel cymeriadau o'r Oes Haearn.

Mae Owain Rhys, dehonglydd diwedd-araf y Pentre Celtaidd, wedi cymryd pethau gam ymhellach gan gynnig ystod o weithgareddau gwahanol. Mae'r dewis sydd ar gael i grwpiau ysgol yn amrywio o'r dull person cyntaf traddodiadol, i gyfle i gloddio oddi mewn i furiau'r tŷ crwn cerrig. Rydyn ni wedi cynhyrchu cyfres o CD Romiau i gyd-fynd â'r dehongliad ac rydyn ni wrthi'n datblygu pecyn ar gyfer y we sy'n cynnig taith rithwir 360 gradd o gwmpas tŷ crwn Moel-y-Gaer. Rydyn ni'n gwneud projectau arbennig gyda grwpiau cymunedol hefyd. Bydd HAFAL (y gymdeithas i bobl ag afiechyd



Yn Nhŷ'r Dyfodol, mae Elin Roberts yn annog pobl o bob oed i feddwl am fyw mewn ffordd gynladwy
In the House for the Future, Elin Roberts gets visitors of all ages to think about sustainable living

meddwl dwys) yn ein helpu ni i ailddehongli mynedfa'r Pentre yn yr hydref.

Mae dehongliad y Pentre Celtaidd yn esblygu o hyd. Er enghraifft, mae'r palis o gwmpas y Pentref yn defnyddio o leiaf dri dull o adeiladu. Trwy arbrofion fel hyn, gallwn ni ddangos ffyrdd modern o feddwl am archaeoleg. Ond heb gymorth dehonglydd, byddai'n hollol ddiystyr i lawer o ymwelwyr.

Un o broiectau mwyaf uchelgeisiol yr Amgueddfa hyd yn hyn yw ailgodi Eglwys Sant Teilo o Landeilo Tal-y-bont, ger Pontarddulais ar y safle. Dyma'r unig enghraifft ym Mhrydain o eglwys ganoloesol gyfan yn cael ei symud i amgueddfa. Mae tipyn o her yn wynebu dehonglydd y safle Leah Jones, yn ei het galed, wrth ddenu ymwelwyr i uniaethu â'r safle hwn.

Mae Leah yn arwain teithiau cyson, gan ganolbwyntio ar broblemau a phrosesau'r project. Mae hi'n gallu teilwra ei dehongliad at anghenion gwahanol gynulleidfaoedd mewn ffordd a fyddai'n amhosibl mewn arddangosfa statig. Mae llawer o gymdeithasau a sefydliadau yn gwahodd Leah i siarad yn eu cymunedau. Mae pynciau fel y mur-luniau a ddaeth i'r golwg wrth ddatgymalu'r eglwys wedi bod yn arbennig o boblogaidd.

Rhan annatod o waith Leah yw meithrin perthynas â chymuned Llandeilo Tal-y-bont er mwyn iddyn nhw barhau i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n wynebu staff yr

Amgueddfa. Mae'n cynnal sesiynau galw heibio yn rheolaidd, ac mae'r gymuned i gyd yn dod i'r Amgueddfa i ddathlu Dydd Sant Teilo yn flynyddol.

Ein dehongliad o ddosbarth cyfnod Oes Fictoria yn Ysgol Maestir yw un o'n gweithgareddau dehongli hynaf. Rydyn ni'n ail-greu gwersi nodweddiadol yn y dosbarth, ac yn annog y plant i ystyried eu profiadau wrth fynd nôl i'w dosbarthiadau modern. Rydyn ni wedi cynhyrchu CD Rom i gyd-fynd â'r ymweliad sy'n cynnwys tystiolaeth o log yr ysgol ac adroddiad y Comisiynwyr, ynghyd â thaith rithwir 360 gradd o gwmpas y dosbarth.

Mae Betsan Evans, dehonglydd adeiladau'r 19eg a'r 20fed ganrif, wedi datblygu amrywiaeth o weithgareddau a chymeriadau. Mae "Mrs Evans y Siop" a "Beti Bwt" yn ffefrynnau gyda theuluoedd a phlant ysgol fel ei gilydd. Mae ffordd rythmig Betsan o berfformio ei diwrnod golch yn adleisio'r hen benillion y mae cymeriad Beti Bwt wedi'i seilio arnynt. Ac fel actores a chyn-athrawes, mae hi'n gallu meddwl ar ei thraed ac ymateb i anghenion ei chynulleidfia.

Mae rhoi cyfle i'r ymwelwyr rannu eu profiadau a hynny yn ei dro'n annog yr addysgu. Mae'r hen deganau, a'r nwyddau sydd ar werth yn y siop o'r 1920au yn arbennig o boblogaidd gyda theuluoedd a grwpiau oedran cymysg. Maen nhw'n rhoi cyfle i'r rhai hyn rannu cyfrinachau'r teganau

gyda'r plant a dweud sut beth oedd siopa cyn dyfodiad yr archfarchnad.

Mae'r Tŷ ar gyfer y Dyfodol wedi denu mwy o ymateb nag unrhyw adeilad arall yn yr Amgueddfa. Nod y dehonglydd, Elin Roberts, yw ysbrydoli ymwelwyr i ddysgu mwy am ffyrdd cynaliadwy o fyw. Mae'n trefnu gweithdai, gweithgareddau ymarferol a sgysiau i godi ymwybyddiaeth yr ymwelwyr am faterion cynaliadwyedd. Gall ymwelwyr weld "ôl troed" amgylcheddol Cymru ar y byd, a mesur eu heffeithiau nhw eu hunain ar ein planed. Mae Elin yn awyddus i annog ymwelwyr i edrych ar eu bywydau bob dydd a sut y gallan nhw fynd ati i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu eu sbwriel. Mae'r ymwelwyr lleiaf yn cael eu cyflwyno i'r thema trwy gyfrwng stori gyfarwydd.

Rydyn ni i gyd yn hoffi clywed am fywydau pobl eraill. Mae dehonglwyr yr Amgueddfa'n deffro chwilfrydedd, yn herio ffyrdd o feddwl ac yn ein hatgoffa ni mai casgliadau pobol yw'r rhain. Wedi'r cyfan, roedd y gwrthrychau a'r adeiladau sydd yn yr amgueddfa heddiw yn rhan annatod o fywydau'r Cymry ers lawer dydd.

Nia Williams yw'r Cydlynnydd Addysg ar gyfer Hanes yn Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru.

Cyswllt: nia.williams@aocc.ac.uk, ffôn 02920-573437.

Owain Rhys sy'n dod ag Oes yr Haearn yn fyw yn y Pentref Celtaidd, lle bu dehonglwyr byw yn gweithio ers 1991
Owain Rhys brings the Iron Age to life in the Celtic Village, where live interpreters have worked since 1991

Going live at St Fagans



Call it empathy or just plain curiosity, people have always been interested in other people's lives. **Nia Williams** describes how the Museum of Welsh Life turns a human impulse into effective interpretation.

Visitors prefer talking and listening to people, and gain more from this experience than from any other form of interpretation on offer. This was the clear message from a recent visitor survey at the Museum of Welsh Life in St Fagans, near Cardiff.

Live interpretation is, today, an increasingly familiar approach. It can be "first person", where a costumed interpreter assumes a character role and appears to have time-travelled to the present (or the audience has time-travelled to the past). It can be "third person", where the interpreter wears costume and talks authoritatively about a character's life and times, but remains a 21st century person. Or it can be delivered

by the interpreter as him or her self, talking about the past, present and future.

The Museum now has four members of staff dedicated primarily to this work. They are storytellers and presenters of themes. They reveal the layers of meaning behind the buildings and artefacts by provoking thought and discussion, and their work encourages their audience to be actively involved in the process of learning.

Most of the exhibits in the Museum are original buildings, relocated and re-erected here. But in our Celtic Village, the roundhouses have been created from archaeologists' interpretations of the past. This is where our first full-time interpreters were employed back in 1991. Initially, this was

first person interpretation, with two members of staff dressed as Iron Age characters.

Owain Rhys, the current Celtic Village interpreter, has taken things a step further and provides a choice of activities. The menu on offer to school groups ranges from the now-traditional first person approach to an opportunity to excavate within the walls of the stone roundhouse. To support the interpretation, we've produced a series of CD Roms and we're developing a 360-degree virtual tour of Moel-y-Gaer roundhouse as a web resource. We're also establishing special projects with community groups. HAFAL (a society for people with serious mental illness) will be helping to re-interpret the entrance way to the Village this autumn.

The interpretation offered at the Celtic Village is constantly evolving. For example, the palisade around the Village is being constructed using at least three different building styles. Through this kind of experiment we can reflect current archaeological thinking. But without an

interpreter on hand, such an approach would be meaningless to many visitors.

One of the Museum's most ambitious projects to date is the re-erection of St Teilo's Church from Llandeilo Tal-y-bont, near Pontarddulais. This is the only example in Britain of an entire medieval church being moved to a museum. Donning her hard hat, Leah Jones, the interpreter for the Church, has a challenging task in encouraging visitors to engage with this evolving building site.

Leah runs regular tours, focusing on the issues and processes involved in the project. She can tailor her interpretation to specific audience needs in a way in which a static display couldn't. Many societies and institutions book Leah to give a talk in their community, and subjects such as the wall paintings, discovered when the church was dismantled, have proved particularly popular.

An integral part of Leah's work is to develop the relationship with the community of Llandeilo Tal-y-bont so that they continue to be involved in the decisions faced by Museum staff. There are regular drop-in sessions, and the whole community visits on St Teilo's Day as part of their celebrations.

One of our longest-running interpretive activities is held in the Victorian schoolroom at Maestir School. We re-enact a typical lesson, encouraging youngsters to reflect upon the experience when they return to their own classrooms. To support this process, we've produced a CD Rom including evidence from the school log book and Commissioners' report, and a 360 degree virtual tour of the schoolroom.

Betsan Evans, interpreter for 19th and 20th century buildings, has developed a range of activities and characters. "Mrs Evans the Shop" and "Beti Bwt" have become favourites with visiting families and school children alike. The rhythmic manner in which Betsan performs her washday echoes the lyrical verse on which the Beti Bwt character is based. As an actress and former teacher, she is able to improvise in response to the needs of her audience.

We use social interaction among visitors to encourage learning. Old toys and goods for sale in a 1920s general stores have proved extremely popular with families and mixed-age groups. Older members of the group explain to younger members how to play with the toys or what shopping was like before supermarkets.

The House for the Future has probably provoked more response than any other building at the Museum. Interpreter Elin Roberts aims to inspire visitors to learn more about sustainable living. Workshops, hands-on activities and talks are geared towards giving visitors a greater understanding of sustainability issues. Visitors can view the environmental "footprint" we in Wales are leaving and measure their personal impact on our planet. Elin is keen for visitors to consider their everyday lifestyle and how they might reduce, re-use and recycle. A storyline has been developed for younger visitors, presenting the material in a more familiar, domestic context.



Betsan Evans neu "Mrs Evans y Siop" sy'n ffefryn gyda phlant sydd ar ymweliad
Betsan Evans or "Mrs Evans the Shop" is a favourite with visiting children

People are interested in other people's lives. Interpreters at the Museum stimulate curiosity, challenge existing points of view and remind us of the human element of the collections. After all, the objects and buildings that are now museum exhibits were once an intrinsic part of everyday life for people in Wales.

Nia Williams is Education Co-ordinator for History at the National Museums & Galleries of Wales. Contact:

*nia.williams@nmgw.ac.uk,
tel 02920-573437.*

Mae hen deganau a'r ysgoldy o Oes Fictoria yn ysgogi plant i feddwl am y gwahaniaethau rhwng y gorffennol a'r dyfodol
Old toys and the Victorian schoolroom get youngsters to think about differences between past and present

Ar ôl ymdopi cyhyd heb Swyddog Dehongli dynodedig, pam y bu i Awdurdod y Parc Cenedlaethol benderfynu penodi un? Wel, mae'r cyfan yn deillio o'r Arolwg Gwerth Gorau a gynhaliwyd yn 2001. Dangosodd hwnnw bod angen dull mwy strategol o fynd i'r afael â'r gwaith o ddarparu a rheoli dehongli, gwybodaeth ac addysg. Aeth yr Awdurdod ati wedyn i gomisiynu ymgynghorwyr arbenigol i baratoi strategaeth ar gyfer y tri gwasanaeth hwn, ac yn y strategaeth honno argymhellwyd penodi Swyddog Dehongli i ateb yr angen.

Ar ôl bod yn gweithio i Barc Cenedlaethol y Bannau am bedair blynedd, ym Mharc Gwledig Craig-y-Nos yn gyntaf ac yna yng Nghanolfan Astudiaethau Danywenallt, ro'wn i wrth fy modd i gael fy mhenodi i'r swydd ddehongli newydd, ond yn dra ymwybodol o'r sialensiau oedd ar y gorwel.

Bum mis yn ddiweddarach, rwy' wrth fy modd gyda'r sialensiau hynny. Ar hyd y blynyddoedd, cyhoeddodd y Parc Cenedlaethol swm nid bychan o dafleni, panelau, arddangosfeydd a digwyddiadau dehongli. Eto i gyd, heb swyddog dehongli penodol â chyfrifoldeb dros ddehongli, mae'r cyflwyno'n aml wedi bod yn draddodiadol, anhrefnus a'r rheoli ansawdd yn gyfyngedig. Fy ngwaith i, felly, yw sicrhau y bydd ein dehongli yn y dyfodol yn gydlynus ac yn galluogi Awdurdod y Parc i gyrraedd ei amcanion.

Gan fod i'r Parc Cenedlaethol 520 milltir sgwâr o dirwedd drawiadol, treftadaeth gyfareddol a bywyd gwyllt cyfoethog, byddai'n rhy hawdd o lawer i brosiectau dehongli cyffrous fynd â'm bryd yn llwyr. Ond bu'n rhaid i fi ymwrthod â'r ysfa hon gan neilltuo f'egni yn hytrach i'r gwaith o ddatblygu strategaeth ddehongli a chynllun datblygu. Er mwyn rhoi'r broses ar waith, bûm yn cynnal archwiliad o'r dehongli presennol yn y Parc Cenedlaethol. Unwaith y bydd hwn wedi'i gwblhau, bydd gennyf well dealltwriaeth o'r hyn sydd gennym mewn gwirionedd, beth mae'n ei ddweud neu'n ceisio'i ddweud, ac ym mha gyflwr mae ar hyn o bryd.

Nid ar chwarae bach mae llunio rhestr

Torri cwys newydd yn y Bannau

Ym mis Ebrill eleni, penododd Parc Cenedlaethol y Bannau ei Swyddog Dehongli cyntaf erioed.

Rai misoedd wedi iddi gychwyn yn ei swydd, mae **Suzanna Meekins** yn myfyrio ar y sialensiau wrth iddi geisio mynd i'r afael â'i swyddogaeth newydd.

eiddo mewn Parc, yn arbennig felly pan fyddwch chi'n pwyso a mesur ei gynnydd yn erbyn ceisiadau beunyddiol gan gydweithwyr a grwpiau cymunedol am gyngor a chymorth gyda phrosiectau dehongli. Byddai'n wych o beth pe bai modd i fi ddod â'r byd i stop am ychydig fisoedd, cwblhau'r cynllun gweithredu ac yna dod nôl gyda'r atebion! Gall esbonio pwysigrwydd y strategaeth fod yn rhwystredigaeth pan fydd rhywun eisiau cynhyrchu panel sengl neu lwybr treftadaeth mewn pentref. Gydag amser, rwy'n ffyddiog y bydd hyn yn newid, wrth i'r cynllun gweithredu gael ei drawsnewid yn gynnydd go iawn – sef, panelau, digwyddiadau ac arddangosfeydd cydlynus ac effeithiol.

Fel nifer o sefydliadau eraill, o'r braidd y mae Awdurdod y Parc wedi sefyll i asesu p'un a yw ei ddehongli yn gweithio mewn gwirionedd. A fydd ymwelwyr yn darllen ein harwyddion? Ydyn nhw'n cofio ein negeseuon? Gan bod gennym bellach Swyddog Dehongli penodol, bydd monitro a gwerthuso ein dehongli yn un arall o'm prif swyddogaethau.

Yn ogystal â'n dehongli sefydlog, rwy'n monitro effeithiolrwydd ein rhaglen ddigwyddiadau a theithiau cerdded tywysedig – rydym yn buddsoddi cryn dipyn o'n hadnoddau ynddynt ar hyn o bryd. Rwyf wedi llunio adolygiad o deithiau cerdded tywysedig fel offeryn dehongli ac wedi cyflwyno argymhellion ar sut i wella eu heffeithiolrwydd yn y dyfodol.

Ers i mi gael fy mhenodi, rwy' wedi cael croeso cynnes iawn gan gydweithwyr dehongli ar hyd a lled Cymru, ac rwy'n edrych ymlaen at gael cydweithio â nifer ohonoch yn y dyfodol. Rwy'n awyddus iawn i glywed oddi wrth unrhyw un sydd wedi ysgrifennu neu sydd yn y broses o lunio strategaeth ddehongli neu unrhyw berson sy'n monitro eu rhaglenni digwyddiadau a theithiau cerdded, er mwyn i ni fedru cymharu nodiadau.

Mae Suzanna Meekins yn Swyddog Dehongli gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Cysylltwch â: suzanna.meekins@breconbeacons.org, tel 01874-624437.

Blazing a trail in the Beacons

In April this year, the Brecon Beacons National Park appointed its first ever Interpretation Officer. A few months into the job, **Suzanna Meekins** reflects on the challenges of carving out her new role.



After managing for so long without a dedicated Interpretation Officer, why did the National Park Authority decide to appoint one? Well, it all dates back to the Best Value Review carried out in 2001. This identified the need for a more strategic approach to the provision and management of interpretation, information and education. The Authority then commissioned specialist consultants to prepare a strategy for these three services, and this recommended the appointment of a dedicated Interpretation Officer.

Having worked for Brecon Beacons National Park for four years, first at Craig-y-nos Country Park and then at Danywenallt Study Centre, I was delighted to get the

new interpretation job but acutely aware of the challenges that lay ahead.

Five months down the line, I'm really enjoying these challenges. Over the years, the National Park has produced no shortage of interpretative leaflets, panels, exhibitions and events. However, without a designated officer responsible for interpretation, the approach has often been traditional, uncoordinated and with limited quality control. My role is therefore to ensure that our future interpretation is co-ordinated and enables the Park Authority to achieve its aims.

With 520 square miles of stunning landscape, fascinating heritage and rich wildlife in the National Park, it would be all too easy to engross myself in exciting interpretation projects. But I've had to resist this urge and instead invest my energy in developing an interpretation strategy and action plan. To start the process I've been carrying out an audit of existing interpretation in the National Park. Once this is complete, I'll have a better understanding of what we've

actually got, what it says or attempts to say, and what condition it's in.

An inventory in a Park this big is no mean feat, especially when you're balancing its progress against daily requests from colleagues and community groups for advice and help with interpretation projects. It would be great if I could stop the world for a few months, finish the action plan and then return with all the answers! It can be frustrating explaining the importance of the strategy when someone wants to produce a single panel or a village heritage trail. With time, I'm sure this will change, as the action plan is transformed into tangible progress – namely, co-ordinated and effective panels, events and exhibitions.

Like many other organisations, the Park Authority has rarely stopped to assess whether its interpretation is actually working. Do visitors read our signs? Do they remember our messages? Now we have a dedicated Interpretation Officer, monitoring and evaluating our interpretation will be another of my key roles.

As well as our static interpretation I'm monitoring the effectiveness of our events and guided walks programme, in which we currently invest a considerable amount of our resources. I've completed a review of guided walks as an interpretive tool and have made recommendations on improving their effectiveness in the future.

Since my appointment, I've been made to feel very welcome by interpretation colleagues across Wales, and I'm looking forward to working with many of you in the future. I'm really keen to hear from anyone who has written or is in the process of writing an interpretive strategy or anyone who is monitoring their events and guided walks programmes, so we can compare notes.

Suzanna Meekins is Interpretation Officer for Brecon Beacons National Park Authority. Contact: suzanna.meekins@breconbeacons.org, tel 01874-624437.

Y dyddiad cau a gollwyd gan y mwyafrif ohonom

Mae 'na ymwybyddiaeth gyffredinol fod cam olaf Deddf Anffafrio'r Anabl yn dod i rym yr hydref hwn – ond sawl un ohonom sy'n sylweddoli mai Hydref 1999 oedd y dyddiad allweddol o safbwynt dehongli?

Margi Bryant sy'n adrodd.

Mae un o bob chwe pherson sy'n byw yng Nghymru yn anabl, yn ôl amodau Deddf Anffafrio'r Anabl (DAA). Daeth y Ddeddf i rym ym 1995, ac mae'n gymwys i bob rhan o'r DU a'i nod yw sicrhau fod pobl sydd ag anableddau yn cael yr un mynediad â phawb arall i swyddi, nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau.

Cyflwynwyd y DAA gam wrth gam. Daw'r cam olaf, sy'n cynnwys mynediad corfforol i safleoedd ac adeiladau, i rym yr Hydref hwn. Ond fel gwasanaethau y cyfrifir dehongli a gwybodaeth, ac mae'r gyfraith wedi bod yn gwarchod y rhain ers Hydref 1999.

Felly, dros y pum mlynedd aeth heibio, dylai pob sefydliad sy'n darparu dehongli ar gyfer y cyhoedd fod wedi sicrhau nad yw eu cynhyrchion a'u gwasanaethau yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd ag unrhyw nam corfforol, synhwyraidd neu feddyliol. A yw'r gofyniad hwn wedi llithro heibio'n ddisylw tybed?

'Does yna ddim "plismyn mynediad" i fonitro'r DAA. Caiff y gyfraith ei gweithredu pan fydd unigolion anabl yn dwyn achos llys yn erbyn sefydliadau sy'n anffafrio. Yn ymarferol, bydd yr unigolion hynny, yn y lle cyntaf, yn debygol o fynd at y sefydliad gan ddwyn sylw at y broblem; dim ond os na cheir ymateb y cynhelir achos llys.

"Swm a sylwedd y DAA yw sicrhau bod darpariaeth ar gael ar gyfer holl amrediad ein cwsmeriaid," meddai Graham Findlay o Anabledd Cymru. "Nid cwtâu sy' dan sylw – dy'n ni ddim yn disgwyl, er enghraifft, fod yn rhaid i ganran benodol o bob taith dwysedig fod yn addas ar gyfer defnyddwyr cadeiriau olwyn. Y prif beth yw meddwl am eich cwsmeriaid a chanfod eu hanghenion."

Mae sawl ffynhonnell arweiniad ar gael i ddarparwyr dehongli. Cyhoeddir Portffolio Anabledd rhad ac am ddim ar-lein gan y Cyngor Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifau (www.mla.gov.uk/information/publications/00pubs.asp). Mae Ymddiriedolaeth Fieldfare yn cynhyrchu canllawiau BT Countryside for All, sydd bellach ar gael ar CD (www.fieldfare.org.uk/public.htm). Gall Anabledd Cymru (www.dwac.demon.co.uk) gyfarwyddo ymholwyr a'u rhoi ar ben y ffordd. Ceir hefyd ymgynghoriaethau arbenigol fel Fieldsman Trails (www.fieldsmantrails.com) yn yr Wyddgrug, ac Ymddiriedolaeth Dog Rose (www.dogrose-trust.org.uk) yn Llwydlo.

Mae dewis o dechnegau cyflwyno yn gwneud teithiau tywysedig yn fwy hygyrch (Llun: Fieldsman Trails)
A range of delivery techniques makes guided tours more accessible (Photo: Fieldsman Trails)



The deadline most of us missed

There's general awareness that the final stage of the Disability Discrimination Act comes into force this autumn – but how many of us realised that for interpretation the key date was October 1999? **Margi Bryant** reports.

One in six people living in Wales is disabled, under the terms of the Disability Discrimination Act (DDA). Passed in 1995, the Act applies to the whole UK and aims to ensure that disabled people have the same access as everyone else to jobs, goods, facilities and services.

The DDA has been introduced in phases. The final phase, covering physical access to sites and buildings, comes into force this October. But interpretation and information count as services, which have been covered by the law since October 1999.

So for the past five years, all organisations providing interpretation to the public should have made sure that their products and services do not discriminate against people with any kind of physical, sensory or mental impairment. Has this requirement slipped by unnoticed?

There are no "access police" to monitor the DDA. The law is enforced through disabled individuals bringing court actions against organisations that discriminate. In practice, people are

likely first to approach the organisation and draw attention to the problem, and only go to court if they get no response.

"The DDA is really about making sure there's provision for the whole range of your customers," says Graham Findlay of Disability Wales. "It's not about quotas – we don't expect, for example, that a fixed percentage of all guided tours must be suitable for wheelchair users. The main

thing is to think about your customers and ascertain their needs."

There are several sources of guidance for interpretation providers. The Museums, Libraries & Archives Council publishes a free online Disability Portfolio (www.mla.gov.uk/information/publications/00pubs.asp). The Fieldfare Trust produces the BT Countryside for All guidelines, now available on CD (www.fieldfare.org.uk/public.htm). Disability Wales/Anabledd Cymru (www.dwac.demon.co.uk) can point enquirers in the right direction. There are also specialist consultancies like Fieldsman Trails (www.fieldsmantrails.com) in Mold, and the Dog Rose Trust (www.dogrose-trust.org.uk) in Ludlow.